

## **Arolygiad o Bractis Deintyddol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

**Practis Deintyddol Cefn  
Coed; Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Cwm Taf**

Dyddiad yr Arolygiad: 6

Chwefror 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 8 Mai 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd amgen a fformatau eraill gael eu llunio, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni. Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	3
2.	Cyd-destun.....	4
3.	Crynodeb .....	5
4.	Canfyddiadau .....	6
	Ansawdd profiad y claf .....	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	14
5.	Y Camau Nesaf.....	16
6.	Methodoleg .....	17
	Atodiad A.....	19

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Cefn Coed yn 148 Stryd Fawr, Cefn Coed y Cymer, Merthyr Tudful, CF48 2PL, ar 6 Chwefror 2017.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Cefn Coed yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Cefn Coed yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Merthyr Tudful. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae Practis Deintyddol Cefn Coed yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys deg deintydd, un therapydd, saith nyrs ddeintyddol, dau aelod o staff y dderbynfa, ac un rheolwr practis.

Mae Practis Deintyddol Cefn Coed yn bractis Hyfforddiant Deintyddol Sylfaenol, sy'n cynnig hyfforddiant deintyddol galwedigaethol i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso.

### 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Cefn Coed yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a ddarparwyd
- Dangosodd y staff eu bod yn ymgymryd â phroses drylwyr o lanhau a sterileiddio cyfarpar deintyddol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael yn dangos bod offer pelydr-X ac offer dadheintio yn cael eu defnyddio gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch i staff a chleifion
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn credu eu bod yn derbyn cefnogaeth dda gan uwch staff y practis a pherchennog y practis.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae angen cynnal gwiriadau mwy rheolaidd o gyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng er mwyn sicrhau eu bod ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio os bydd argyfwng gyda chlaf (llewyg)
- Mae angen i'r deintyddion wella agweddau ar ysgrifennu cofnodion i sicrhau cysondeb yn y practis
- Roedd angen adolygiad o rai o'r polisïau a'r gweithdrefnau.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Canfuom fod y cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn derbyn triniaeth urddasol a bod tîm y practis yn dangos parch a charedigrwydd atynt. Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau i ni eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

*“Practis sy'n cael ei redeg yn dda iawn gyda staff rhagorol!”*

*“Mae'r staff yn y ddeintyddfa yn barod iawn eu cymwynas, yn gwrtais ac yn esbonio popeth”*

*“Rwyf bob amser yn cael esboniad o unrhyw driniaeth a roddir i mi ac rwyf bob amser yn cael cyfle i holi cwestiynau”*

*“Rwy'n hoffi'r ffordd maent wedi esbonio technoleg a thechnegau sy'n datblygu dros y blynyddoedd i weld beth sy'n cael ei wneud a pham”*

### **Cadw'n iach**

Gwelsom fod gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion i helpu i hybu'r angen iddynt ofalu am iechyd a hylendid eu ceg.

Dyweddodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth ddeintyddol. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau cadarnhaol eu hunain am y wybodaeth a roddwyd iddynt gan y deintyddion.

### **Gofal gydag urddas**

Gwelsom y staff yn siarad gyda'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol gan arddangos parch atynt. Roedd y staff yn ymddangos yn dîm bach cyfeillgar a gwelsom sgysiau cwrtais gyda'r cleifion.

Roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn dangos eu bod yn fodlon iawn gyda lefel y gofal a'r driniaeth a roddwyd iddynt. Dywedodd pob claf a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau i ni fod staff y practis wedi gwneud

iddynt deimlo eu bod wedi'u croesawu. Roedd rhai o'r cleifion wedi ychwanegu eu sylwadau cadarnhaol eu hunain ar agwedd a dull gweithredu tîm y practis.

Roedd y practis yn darparu amrediad o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG. Roedd gwybodaeth ar gael am brisiau triniaethau deintyddol preifat i'w gweld yn yr ardal aros, yn ogystal â'r costau ar gyfer triniaethau deintyddol y GIG. Mae hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad rhwydd i wybodaeth am gost bosibl eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac mewn taflen gwybodaeth i gleifion a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

### **Gofal amserol**

Gwelsom fod y practis wedi gwneud ymdrechion i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld mewn dull amserol. Dywedodd pob un o'r cleifion a oedd wedi rhoi sylwadau yn holiadur AGIC nad oeddent wedi profi oedi arwyddocaol wrth aros i weld eu deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Disgrifiodd y staff broses a ddefnyddiwyd i roi gwybodaeth i gleifion am unrhyw oedi gydag amseroedd eu hapwyntiad.

Roedd y practis hefyd yn darparu gwasanaeth atgoffa cleifion drwy neges destun, i roi gwybodaeth iddynt am amser a dyddiad eu hapwyntiad.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau arferol ar gael i gleifion pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt. Roedd y rhif ffôn ar gael ar wefan y practis, yn y daflen gwybodaeth i gleifion, ac ar y neges peiriant ateb.

### **Gofal unigol**

Roedd y practis wedi'i leoli mewn dau adeilad, a oedd wedi'u lleoli wrth ochr ei gilydd. Roedd tair ystafell driniaeth yn yr adeilad cyntaf, un ohonynt ar y llawr daear a dwy ar y llawr cyntaf, gyda grisiau i'w cyrraedd. Roedd dwy ystafell driniaeth arall yn yr ail adeilad, y ddwy ar y llawr daear. Roedd gan y ddau adeilad ddarpariaethau i sicrhau y gallai cleifion ag anawsterau symudedd a'r rhai a oedd yn defnyddio cadair olwyn gael mynediad diogel i'r gwasanaeth.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ar gyfer cyflwyno cwynion ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion ar sut i wneud cwyn ysgrifenedig wedi'i harddangos yn ardal y dderbynfa. Roedd gwybodaeth am y weithdrefn gwyno wedi'i chynnwys hefyd ar wefan y practis a chyfeiriwyd at hyn yn y daflen gwybodaeth i gleifion. Fe wnaethom argymhell bod angen diweddarau'r broses gwyno i gleifion preifat, i gynnwys y manylion cyswllt ar gyfer AGIC. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hyn. Gwelsom fod y practis yn cynnal cofnodion manwl o'r cwynion a dderbyniwyd, yn ysgrifenedig a llafar, a manylion y camau



gweithredu a gymerwyd ar gyfer pob cwyn. Roedd hyn yn galluogi'r practis i adolygu pryderon, cymryd camau i ddatrys problemau, a rhoi adborth i gleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat gynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.***

Gwelsom fod cleifion yn gallu darparu adborth ar y gwasanaethau a ddarparwyd drwy flwch awgrymiadau yn ardal derbynfa'r practis ac ar wefan y practis. Gwelsom y cynhaliwyd yr arolwg cleifion diwethaf yn 2015. Felly, fe wnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried datblygu proses lle bydd adborth gan gleifion yn cael ei gasglu'n fwy rheolaidd. Cytunodd rheolwr y practis i ystyried hyn.

## ***Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol***

**Gwelsom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd arwyddion gweledol bod safle'r practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol.**

**Roedd cofnodion y cleifion yn fanwl ac wedi'u cynnal yn dda ac yn dangos bod y gofal a'r driniaeth wedi'u cynllunio i hybu diogelwch a lles y claf.**

**Dangoswyd bod proses drylwyr ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio'r cyfarpar deintyddol.**

**Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r offer dadheintio yn cael eu defnyddio'n ddiogel.**

### **Gofal diogel**

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i ddiogelu diogelwch a lles y staff sy'n gweithio, a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod yr holl ardaloedd yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch y practis a gwelsom eu bod wedi'u gwasanaethu yn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol.

Mae Profion Dyfeisiau Cludadwy o offer trydanol yn y practis yn cael eu cynnal yn rheolaidd, i helpu i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd gan y practis gontract ar waith i drosglwyddo gwastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel. Gwelsom fod y gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i'r cwmni sydd dan gontract ei gasglu. Roedd offer gwahanu amalgam wedi'u gosod er mwyn galluogi i ronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) o lenwadau deintyddol gael eu tynnu o ddŵr gwastraff cyn eu gwaredu'n ddiogel. Roedd gwastraff nad oedd yn beryglus (gwastraff cartref) yn cael ei gasglu drwy drefniadau gyda'r cwmni sydd dan gontract.

Fe wnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân a thacclus. Roedd yn hawdd glanhau'r lloriau a'r arwynebeddau yn yr ystafelloedd triniaeth er mwyn lleihau croes-heintio. Gwelsom fod rhai cetris anesthetig lleol wedi'u tynnu allan o'u pecynnau yn

barod i'w defnyddio. Fe wnaethom argymhell i'r practis y dylid cadw'r rhain yn eu pecyn gwreiddiol nes y bydd angen eu defnyddio. Cytunodd y practis i wneud hynny. Gwelsom hefyd y gellid gwella'r dulliau o storio rhai symiau mawr o eitemau deintyddol, gan gynnwys blaenau chwistrelli 3-yn-1 a thiwbiau sugno. Cytunodd y practis i wneud hyn hefyd.

Roedd dwy ystafell ddadheintio ar wahân wedi'u gosod yn unol â pholisi a dogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1).<sup>1</sup>

Roedd offer a chabinetau dadheintio yn yr ystafelloedd dadheintio yn amlwg mewn cyflwr da. Roedd arwynebeddau gwaith a'r lloriau yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trylwyr a lleihau croes-heintio. Roedd tystysgrifau arolygu ar gyfer y peiriannau awtoclaf<sup>2</sup> ar gael, a oedd yn dangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod y cofnodion yn cael eu cynnal, o ran y profion a wnaed ar offer glanhau a sterileiddio eraill i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd yn bosibl i ni gadarnhau hefyd bod y practis yn cynnal gwiriadau, ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd, ar yr offer. Fodd bynnag, fe wnaethom argymhell y dylai'r practis gynnwys prawf rheoli awtomatig â llaw<sup>3</sup> fel rhan o'u gwiriadau dyddiol a chytunodd y practis i wneud hynny.

Fe welsom fod y practis yn glanhau cyfarpar deintyddol â llaw cyn ei brosesu drwy'r peiriannau awtoclaf. Felly, fe wnaethom argymhell y gallai'r practis ystyried cyflwyno proses ddilysu ar gyfer glanhau â llaw. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff a oedd yn cynnal y broses yn dilyn yr un weithdrefn er mwyn lleihau amrywiaeth yn y perfformiad glanhau. Cytunodd y practis i ystyried gwneud hyn.

Dangosodd y staff broses ddadheintio drylwyr a gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob aelod o staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

---

<sup>1</sup> Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru \(WHTM 01-05\) \(Diwygiad 1\)](http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM%2001-05%20Revision%201.pdf) yn darparu arweiniad ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

<sup>2</sup> Mae peiriant awtoclaf yn siambr gwasgedd a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy eu hamlygu i stêm dirlawn pwysedd uchel.

<sup>3</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM%2001-05%20Revision%201.pdf> Adran 15.3

Roedd offerynnau deintyddol wedi'u sterileiddio yn cael eu storio mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio. Roedd y dyddiadau a oedd yn nodi pryd y dylid defnyddio neu ailbrosesu offer (glanhau a sterileiddio) wedi'u cofnodi ar y deunydd pecynnu, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar er mwyn nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gweithgarwch monitro sicrwydd ansawdd cyffredinol.

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe byddai argyfwng gyda chlaf (llewyg). Gwelsom gofnodion hefyd a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r offer yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Fodd bynnag, fe wnaethom argymhell y dylid cynnal gwiriadau wythnosol o'r cyffuriau a'r offer ar gyfer argyfwng, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).<sup>4</sup> Cadarnhaodd y practis y byddai hyn yn cael ei weithredu.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau eu bod yn cynnal gwiriadau rheolaidd ar yr offer ar gyfer argyfwng yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Dadebru (DU).***

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Cadarnhawyd hyn drwy'r dogfennau a'r wybodaeth ofynnol a oedd ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod y deintyddion wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio a'u bod yn dilyn y canllaw a gyflwynwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Ni welsom fod y nyrsys deintyddol wedi derbyn hyfforddiant ar ymbelydredd ïoneiddio. Felly fe wnaethom gynghori'r practis i ofyn am gyngor ar ofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<sup>5</sup> ar hyfforddiant o'r fath, sy'n cael ei argymhell ar gyfer gweithwyr clinigol proffesiynol.

---

<sup>4</sup> Mae'r [Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau gwyddonol, o ansawdd uchel, ar ddadebru sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, ymchwil a chydweithrediad.

<sup>5</sup> <http://www.gdc-uk.org/Newsandpublications/Publications/Publications/Continuing%20Professional%20Development%20for%20Dental%20Professionals.pdf>

## ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant ar ymbelydredd ìoneiddio yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi'u cwblhau'n rheolaidd fel rhan o weithgarwch monitro sicrwydd ansawdd y practis. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gymryd y delweddau pelydr-X ac yn nodi lle y dylid gwneud gwelliannau, os bydd eu hangen.

Roedd gan y practis weithdrefn i hybu a diogelu lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed, neu sy'n wynebu risg. Gwelsom fod yr adolygiad diwethaf o'r polisïau diogelu wedi'i gynnal yn 2011 ac fe wnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried adolygu'r broses i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn gyfredol rhag ofn y bydd ei hangen. Cytunodd y practis i wneud hyn. Gwelsom fod pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion a gwelsom dystysgrifau hyfforddiant i ategu hynny.

Cadarnhaodd y staff y buom yn siarad â hwy eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw bryderon gwaith gydag uwch aelodau o staff y practis, a'u bod yn hyderus y byddent yn gweithredu arnynt.

## **Gofal effeithiol**

Gwelsom dystiolaeth bod tîm y practis yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd y practis yn cynnal ystod eang o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a roddir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol i nodi meysydd gwasanaeth y mae angen eu gwella a chynnal gwiriadau ar offer i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n effeithiol. Cawsom sicrwydd bod y practis yn cynnal ystod o archwiliadau.

Fe wnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion i asesu ansawdd y gwaith o gadw cofnodion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a wnaed gan y deintyddion a'r therapydd oedd yn gweithio yn y practis. Roedd cofnodion y cleifion mewn fformat electronig. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl ac yn dangos bod y gofal a'r driniaeth wedi'u cynllunio i hybu lles a diogelwch y cleifion. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi rhai themâu cyffredin y dylid eu gwella, sef:

- Roedd y cofnodion o gydsyniad cychwynnol a pharhaus claf i dderbyn triniaeth wedi'u cofnodi'n anghyson ymhlith yr ymarferwyr

- Nid oedd hanes meddygol cychwynol cleifion bob amser wedi'i gydlofnodi gan y deintyddion. Byddai hyn yn dangos bod deintyddion wediystyried cyflyrau meddygol cleifion ac unrhyw feddyginiaethau yr oeddent yn eu cymryd wrth gynllunio gofal a thriniaeth ddeintyddol
- Nid oedd y rhesymau dros amserlenni rhwng apwyntiadau cleifion yn cael eu cofnodi yn gyson, a oedd yn golygu ei bod yn anodd dehongli'r cyfiawnhad dros amseroedd adalw gwahanol ar gyfer y cleifion
- Er y cawsom ein hysbysu eu bod yn cynnal sgriniau canser ar lafar ar gyfer pob claf, nid oedd hyn yn cael ei gofnodi'n gyson ymhlith yr ymarferwyr

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau eu bod yn cwblhau cofnodion deintyddol cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gadw cofnodion.***

Yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd y rheswm dros gymryd delweddau pelydr-X a chanfyddiadau'r deintyddion ohonynt wedi'u cofnodi.

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Mae'r practis deintyddol yn cael ei reoli a'i weithredu'n effeithiol gan reolwr y practis, a tîm o staff profiadol a brwdfrydig. Dangoswyd strwythur rheoli gyda dulliau cofnodi ac atebolrwydd clir. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan uwch staff y practis a'r tîm ehangach. Dywedodd y staff hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i gyfychu hyfforddiant perthnasol.**

Mae Practis Deintyddol Cefn Coed yn bractis deintyddol sefydledig ac mae'n rhan o grŵp deintyddol mwy Rodericks, sydd â thua 60 o bractisau deintyddol yng Nghymru a Lloegr. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd gyda chefnogaeth tîm rheoli ehangach. Pan nodwyd meysydd y mae angen eu gwella, dangosodd y tîm rheoli barodrwydd ac ymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau gan holl aelodau tîm y practis. Gwelsom fod gan y staff ddealltwriaeth a gwybodaeth glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn credu bod y dulliau cyfathrebu yn y practis yn dda. Cawsom wybod bod y practis yn cynnal sgysiau tîm misol anffurfiol, ac y byddai cyfarfodydd mwy ffurfiol yn cael eu cynnal yn y practis yn llai rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu trafod unrhyw faterion yn ystod y cyfarfodydd hyn.

Gwelsom fod nifer o bolisiau a gweithdrefnau amrywiol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom fod rhai, ond nid pob un o'r polisiau, wedi'u hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd, ac yn cynnwys dyddiadau adolygu, rhifau fersiynau a'r dyddiad adolygu nesaf. Fe wnaethom argymhell y dylid defnyddio'r un weithdrefn pan fyddai'r practis yn adolygu pob un o'i bolisiau a'i weithdrefnau er mwyn sicrhau dull adolygu cyson. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar bynciau amrywiol a oedd yn berthnasol i'w rôl. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff nyrsio wedi derbyn arfarniad o'u perfformiad yn y flwyddyn ddiwethaf. Cawsom wybod bod perfformiad y staff deintyddol yn cael ei adolygu'n rheolaidd ond nad yw'n cael ei gofnodi'n ffurfiol. Fe wnaethom argymhell y dylai'r practis gyflwyno system ar gyfer arfarnu pob aelod o staff yn ffurfiol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn arfarniad o'i waith a hynny'n rheolaidd.***

Gwelsom fod y staff clinigol perthnasol wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i arfer a'u bod wedi trefnu yswiriant indemniad.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn imiwneiddiad rhag Hepatitis B i ddiogelu cleifion a hwy eu hunain rhag haint. Fe wnaethom argymhell i'r practis y dylent gadw canlyniadau imiwneiddio'r staff i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cynnal. Cytunodd y practis i wneud hyn. Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael gan y bwrdd iechyd.

Roedd tystysgrifau cofrestru ag AGIC y deintyddion wedi'u harddangos, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwelsom dystysgrifau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintyddion oedd yn gweithio yn y practis. Roedd y rhain wedi'u cyflwyno o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r gofynion yn y rheoliadau.



## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Cefn Coed yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

### **Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>6</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>7</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

---

<sup>6</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>7</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Practis Deintyddol Cefn Coed**

**Dyddiad yr Arolygiad: 6 Chwefror 2017**

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>					
Tudalen 8	Rhaid i'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat gynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.  <i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 5.1</i>	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)  Rheoliad 15(2)	Diweddarau ein polisi cwynion i sicrhau bod manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gael i gleifion.	Kirsty Lewis-Langley, Rheolwr y Practis.	Wedi'i weithredu Mawrth 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>					
Tudalen 11	<p>Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod yr offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd, yn unol â'r safonau ansawdd a bennwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).</p> <p><i>Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer arfer a hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14(2)</p>	<p>Cyflwyno gwiriadau wythnosol ar gyfer yr holl offer brys a chymorth cyntaf yn y practis.</p>	<p>Kirsty Lewis-Langley, Rheolwr y Practis.</p>	<p>Wedi'i weithredu Mawrth 2017</p>
Tudalen 12	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn unol â'r gofynion a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 6.6 a 7</i></p>	<p>Y Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 7.1</p>	<p>Sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol gofal deintyddol yn y practis yn derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p> <p>Bydd y practis yn sicrhau bod yr holl weithwyr proffesiynol gofal deintyddol yn ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol bob pum mlynedd.</p>	<p>Kirsty Lewis-Langley, Rheolwr y Practis.</p>	<p>Bydd y staff gofynnol yn mynychu'r rhaglen nesaf a gynhelir gan Ddeoniaeth Cymru sydd ar gael – Ionawr/Chwefror 2018.</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Tudalen 13	<p>Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 3 a 4</i></p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 3.5</p> <p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14</p>	<p>Bydd angen system gyson a safonedig y cytunwyd arni ar yr holl staff clinigol (deintyddion a therapydd) ar gyfer cofnodion deintyddol yn y practis.</p> <p>Bydd y system yn cynnwys ble mae cofnodion yn cael eu cadw a strwythur y cofnodion.</p> <p>Caiff hyn ei drafod yng nghyfarfod nesaf y practis. 4 Ebrill 2017 a chaiff ei roi ar waith yn unol â hynny.</p> <p>Dilynir hyn gan archwiliadau chwarterol i sicrhau dull cyson sydd wedi ei strwythuro'n dda.</p>	<p>Robert Davies</p> <p>Cyfarwyddwr Rodericks Wales Ltd</p>	Ebrill 2017
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>					
Tudalen 15	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod gwaith yr holl staff yn cael ei arfarnu'n rheolaidd.</p> <p><i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6.6.1</i></p>	<p>Y Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 7.1</p>	<p>Cwblhau arfarniadau ar gyfer yr holl staff cyflogedig a pharhau i adolygu ar sail flynyddol.</p> <p>Cyflwyno system arfarnu</p>	<p>Kirsty Lewis-Langley, Rheolwr y Practis.</p> <p>David Hannington,</p>	<p>3 mis</p> <p>3 mis</p>

<b>Rhif y dudalen</b>	<b>Yr hyn y mae angen ei wella</b>	<b>Rheoliad / Safon</b>	<b>Camau gweithredu'r practis</b>	<b>Swyddog cyfrifol</b>	<b>Amserlen</b>
			deintyddion ar sail flynyddol.	Cyfarwyddwr Clinigol Rodericks Wales Ltd.	

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):**      **Kirsty Lewis- Langley**

**Teitl:**                              **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:**                        **14 Mawrth 2017**